




tud 3	tud 6	tud 10	tud 12
Pobl a Phethe	Cystadleuaeth !	Eira yn y Ffindir	Chwaraeon

PERCHNOGION NEWYDD Y LLEW DU

Gallwn ddatgelu mai perchnogion newydd y Llew Du yn Nhal-y-bont yw Sion Glyn Y Fagwyr a Catrin Jenkins. Fel y gŵyr amryw, mae Siôn eisoes yn rhedeg caffï poblogaidd y *Blue Creek* yn Aberystwyth, ac mae'n mynd i barhau i wneud hynny. Y bwriad yn y Llew Du yw sefydlu bwyty a chynnig ystafelloedd aros. Yn fuan ar ôl iddo ef a Catrin dderbyn allweddî'r hen dafarn, meddai Siôn Glyn:

'Yr ydym yn gobeithio cael caniatâd cynllunio i wneud gwelliannau y tu mewn i'r adeilad gan ei fod wedi ei gofrestru efo Cadw. Mae'n dipyn o fenter a bydd gwaith caled o'n blaenau yn ystod y misoedd nesaf, ond yr ydym yn edrych ymlaen at agor y bwyty erbyn yr haf.'

Wrth groesawu'r newyddion, dywedodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn:

'Newyddion gwych yw fod Cymry ifanc lleol yn mentro fel hyn. Maent yn siŵr o gael cefnogaeth trigolion yr ardal, a thu hwnt, a dymunaf y gorau iddynt'.



Siôn Glyn a Catrin o flaen y Llew Du yn fuan ar ôl derbyn yr allweddî.

Codi hyd at 131 o dai o fewn degawd

Ymddangosodd arwyddion yn Nhal-y-bont yn hysbu'r cyhoedd ynghylch bwriad y Cyngor Sir i ddynodi tir ar gyfer datblygu rhagor o dai newydd o fewn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol, 2007-2022. Y bwriad yw caniatáu codi cyfanswm o 131 o dai newydd yn ardal *Papur Pawb* erbyn 2022, sef 84 yn Nhal-y-bont a 47 rhwng pentrefi eraill yr ardal. Am y manylion gweler tudalen 7.



Dathlu Calan Hen

Cwrdd yng ngwaelod y Neuadd Goffa am 6.30

Stori yng ngolau fflachlamp gyda Jeremy Turner

Gorymdaith o gwmpas y pentre yng nghwmni Jeremy a'r Fari

Nol am beint a bwyd yn y Llew Gwyn, Talybont erbyn 8pm

nos Wener, 14 Ionawr

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol: Geraint Evans (01970) 832473
Garnwen, Tal-y-bont SY24 5EY post@garnwen.org
Tynnu lluniau: Cysyllter â golygyddion y mis.

GOHEBYDDION LLEOL

Bont-goch: Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch 832566
Parsel Henllys: Dilys Morgan, Alltgoch 832498
Eglwysfach: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Taliesin: Siân Saunders, Is-y-coed, Taliesin 832230
Tal-y-bont: Aileen Williams, Maesmeillion 832438
Kathleen Richards, Y Bryn 832201
Tre'r Ddôl: Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r Ddôl 832429
Janet Evans, Cefngweiriog (01654) 781260
Maes y Deri: Eirlys Jones, 91 Maes y Deri 832483

CYMDEITHAS PAPUR PAWB

Cadeirydd: Geraint Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Is-gaderydd: Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont 832093
Ysgrifennydd: Siân Pugh, Cysgod-y-Llan, Tal-y-bont 832433
Trysorydd: Gwyn Jenkins, Maesgwyn, Tal-y-bont 832560
Aelodaeth: Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont 832438
Hysbysebion: Wendy Fuller, Pandi, Ffwrnais (01654) 781312
Plygu: Gwennllan Parry-Jones, Lyn Hammonds

Dosbarthwyr: Enid Gruffudd, Susan Lewis, Gwennllan Parry-Jones, Bledwyn Huws (Tanygrifiadau)

Cyhoeddir gan Gymdeithas Papur Pawb gyda chymorth
Cyngor Celfyddydau Cymru - Bwrdd Gorllewin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Llythyrau

FFERM FFACTOR

Annwyl ddarlennwyr,

Mi fydd Fferm Ffactor yn ôl ar sgrin S4C y flwyddyn yma ac mae'r tîm cynhyrchu eisiau clywed gan unigolion hwyliog a brwdfrydig a hoffai gystadlu am deitl 'Fferm Ffactor 2011'.

Os ydych yn hoffi sialens ac wrth eich boddau gyda ffermio a'r bywyd gwledig, fe hoffem glywed gennych. Byddwn yn ystyried ceisiadau gan ddynion a merched sydd dros 18 oed ac sy'n ffermio un ai'n llawn neu'n rhan amser.

Os hoffech chi gael y cyfle bythgofiadwy i fod yn rhan o'r gyfres gyffrous hon, a chystadlu am Isuzu Rodeo Denver newydd sbon, ewch i www.s4c.co.uk/ffermffactor neu am fwy o wybodaeth a ffurflen gais cysylltwch â ni trwy ffonio (01286) 685300. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau fydd 31 Mawrth 2011.

Yn gywir,

Tim Fferm Ffactor,
Cwmni Da, Cae Llenor,
Caernarfon, Gwynedd.

Annwyl ddarlennwyr,
Mae SEFYDLIAD

PRYDEINIG Y GALON yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed yn 2011. Ers y dechrau mae llawer o waith ymchwil wedi ei wneud yn yr ymdrech i wella, rhoi addysg a gwybodaeth am y clefyd, ond mae llawer iawn mwy i'w wneud, gwaetha'r modd.

Felly yn ystod mis Chwefror bydd ymgyrch i godi arian at yr elusen er mwyn gwneud rhagor o ymchwil at wella'r galon. Beth am wneud rhywbeth fel trefnu i bawb gwisgo 'Coch' ar ddydd Gwener 25 o Chwefror neu drefnu unrhyw ddigwyddiad arall i godi arian at yr elusen yn ystod y mis?

Os hoffech gael pecyn gwybodaeth am yr ymgyrch a sut i gefnogi cysylltwch â Glan Davies ar 07929398276 neu Rowland Jones ar 01974 241328 a braf fuasai clywed eich bod yn barod i drefnu digwyddiad i godi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon, yr unig elusen sydd yn cefnogi ymchwil clefyd y galon.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- Papur Pawb Sain – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Dyddiadur

Ionawr

- 14 Clwb Nos Wener
Dathlu Calan Hen gyda Helen a Ruth
- 16 Bethel 2 Gweinidog
Nasareth Uno ym Methel
Rehoboth 10
Rhyddian Griffiths
- 17 Merched y Wawr
Ymfudo o Gymru i Ohio
Menna Morgan
Neuadd Goffa 7.30
- 19 Cymdeithas Farddol
Talybont
8 o'r gloch
- 20 Sefydliad y Merched
Taith i China
2 o'r gloch
gyda Peter a Julie Wathern
- 23 Bethel 2
Parch Andrew Lenny
Nasareth 5 Bugail
Rehoboth 10
Parch Richard Lewis

- 30 Bethel 10 Gweinidog (C)
Nasareth *Uno ym Methel*
Rehoboth 10
Morris T. Morris
- 31 Cyngor Cymuned
Ceulanamaesmawr
Pwyllgor Neuadd 7.30

Chwefror

- 2 Cymdeithas Farddol
Talybont
8 o'r gloch
- 6 Bethel 10 Trefn Lleol
Nasareth 10 Bugail
Rehoboth 2 Bugail
- 8 Cyfarfod Chworiydd
Rehoboth 2 o'r gloch
Bob Williams yn coginio
- 9 Neuadd Goffa Talybont
Cyfarfod Blynnyddol 7.30
Pwyllgor yn dilyn am 8
- 13 Bethel 5 Gweinidog
Nasareth *Uno ym Methel*
Rehoboth 10 Bugail (C)



Yn gywir,

GLAN DAVIES

Ysgrifennydd Cangen
Aberystwyth a'r Cylch
Sefydliad Prydeinig y Galon

Sadwrn iaith – 19 Chwefror
Llannerch
Tal-y-bont

Annwyl 'Pawb',

Falle i chi gofio llythyr ganddom ym mhapur mis Rhagfyr yn sôn am y bwriad i gynnal sesiynau iaith Gymraeg yn Neuadd Goffa Tal-y-bont fis nesa.

Mae taflen hysbysebu'r Sadwrn wedi ei chynnwys gyda'r rhifyn hwn. Byddem yn ddiolchgar iawn petaech yn cyfeirio unrhyw ffrind, cymydog neu berson newydd i'r ardal a all fanteiso ar ddiwrnod fel yma ati.

Llawer o ddiolch,

Medi, Mared, Llio ac Alaw

CYNGERDD

gan
GÔR CF1 (Caerdydd)
yn Y TABERNACL
MACHYNLLETH
29 Ionawr 2011
7.30 o'r gloch
Mynediad £10

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu eich sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech ddanfôn y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442), glenysedwards33@btinternet.com o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru



Golygyddion y rhifyn hwn oedd Bledwyn a Delyth Huws gydag Iolo ap Gwynn yn dylunio. Diolchwn i David Bwlchdyddwyallt am y cartwn. Golygyddion y rhifyn nesaf fydd Geraint Evans (post@garnwen.org.uk, 832473) a Geraint a Siân Pugh. Dylai'r deunydd fod yn llaw'r golygyddion **erbyn dydd Gwener, 4 Chwefror**. Bydd y papur ar werth ddydd Gwener 11 Chwefror.

Gwella ar ôl codwm

Anfonwn ein cyfarchion at un o ohebyddion misol mwyaf ffyddlon y papur, sef Kathleen Richards, Y Bryn, ar ôl iddi dorri ei garddwrn cyn y Nadolig. Treuliodd gyfnod yn yr ysbyty a bu ei theulu a'i ffrindiau yn fawr eu gofal amdani wedi iddi ddychwelyd adref, ond cafodd anaf arall i'w llaw wedyn a derbyn triniaeth yn ysbyty Treforys. Dymunwn wellhad buan iddi.

Diolch

Diolch i drigolion Tal-y-bont am y croeso cynnes a gafodd y criw bach o garolwyr, nos Sul, 12 Rhagfyr. Llwyddwyd i gasglu £150 i Ffagl Gobaith. Diolch arbennig i Geraint Howard am gario'r tun casglu trwm!

Dymuna Mrs Eluned Evans, 82 Maesyderi, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y cardiau, y galwadau ffôn a'r ymweliadau yn ystod ei hysbaid yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cyngerdd

Cynhaliwyd cyngerdd yn eglwys St Mihangel, Eglwys-fach, ar 27ain o Ragfyr gan 'Gantorion Dyfi'. Codwyd £137 tuag at drwsio'r Ystafell Haearn.

Ennill teledu

Daeth Siôn Corn yn gynnar i Lety'r Bugail eleni. Llongyfarchiadau i Ann Jenkins ar ei lwc yn ennill sgrin deledu mewn cystadleuaeth ar raglen Wedi 7 ar S4C ganol mis Rhagfyr.

Cyfarchion pen-blwydd

Pen-blwydd hapus a phob dymuniad da i Mrs Ann Watkin, Brynawel, Tre Taliesin, ar ei phen-blwydd yn 93 oed ar 25 Ionawr. Dymuniadau gorau i Mr Geraint Evans, Cartref Tregerddan, (gynt o Lawrcwmbach, Bont-goch), ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Anfonwn ein cofion cywiraf ato.

Llongyfarchiadau i Bethan Davies, Dolcletwr, Taliesin,

Pobl a Phethe



Priodas wen

Yng nghapel Bethel ar y Sul cyn y Nadolig, a'r eira'n drwch ar lawr, cynhaliwyd priodas Mali James, merch Harry a Medi James, Llannerch, Tal-y-bont, ag Arwyn Thomas sy'n enedigol o'r Dinas, Llanwnda. Bydd y ddau yn ymgartrefu yn Nhrelluest (*Grangetown*) yng Nghaerdydd, gan fod Arwyn yn gweithio i S4C a Mali'n gweithio i'r Urdd yn y brifddinas. Treuliasant eu mis mêl yn Seland Newydd. Dymunwn bob hapusrwydd i'r ddau.

ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Ymlaen yn awr at yr hanner canrif nesaf!

Wyres gyntaf

Llongyfarchiadau i Caryl (Cerrigcyranau gynt) ac Edward Tudor Jones ar enedigaeth eu merch, Aneira Fflur, ar ddiwrnod ola'r flwyddyn. Aneira fach yw wyres gyntaf Eirlys a Dilwyn Jenkins Cerrigcyranau, ac mae'n orwyres i Mr a Mrs Bennet Jenkins Ynys Capel.

Adref o'r ysbyty

Mae Mrs Shirley Humphreys, 70 Maesyderi, wedi bod yn yr ysbyty. Mae adref erbyn hyn a dymunir gwellhad buan iddi.

Colli Cardi da

Trist oedd clywed am farw Mr Douglas Jones, Brooklyn, Tal-y-bont, ar 3 Ionawr, ac estynnir ein cydymdeimlad dwysaf â'i briod Dwynwen, eu merch Margaret a'r wryon. Cyn ymddeol yr oedd Mr Jones yn gweithio fel swyddog safonau masnach i'r Cyngor Sir, ac yr oedd yn eglwyswr selog. Yn ôl un a fu'n gyd-weithiwr iddo, yr oedd yn dipyn o gymeriad ac yn 'Gardi da'.

Plygain Bro Ddyfi

Bu Betsan Siencyn, Tanrallt, Tal-y-bont yn canu'r fflwt yn y Blygain a gynhaliwyd gan Ferched y Wawr Bro Ddyfi yn Eglwys Sant Pedr Machynlleth ychydig cyn y Nadolig.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â theulu'r diweddar Henry Geoffrey Stickland, Cae'r Gog (Loreley), Pentre Bach. Yr oedd Mr Stickland yn ŵr i Pauline ac yn dad i Tracy a Martin.

Trist yw nodi i Mrs Katie James o 1 Heol y Gogledd, Tre'r Ddôl, farw yn Ysbyty Basingstoke a North Hampshire tra oedd yn aros gyda'i mab. Yr oedd Mrs James yn weddw i'r diweddar Evan James (Ianto Pantglas) y cafwyd teyrnged iddo yn rhifyn Hydref o'r papur. Cydymdeimlwn yn fawr â'r plant, sef Meirion, Menna, ac Alwyn a'u teuluoddd.

Ennill gwobr am dwrci

Llongyfarchiadau i deulu Tynant ar ennill gwobr am y twrci gorau dros 15 pwys yn sioe ddofednod ac arwerthiant blynyddol y Nadolig yn Llanbedr Pont Steffan. Cyflwynwyd y wobr i Elgan Evans gan Faer Llambled, y Cynghorydd Rob Phillips.

Cadeirydd Cenedlaethol Plaid Cymru

Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Ellen ap Gwynn ar gael ei hethol yn Gadeirydd Plaid Cymru. Mae blwyddyn brysur a phwysig o'i blaen gyda'r refferendwm am fwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar 3 Mawrth ac etholiadau ar gyfer ethol aelodau'r Cynulliad ym mis Mai.

Rhagor ar dudalen 6

Siop y Pethe
Aberystwyth

Llyfrau a Recordiau
(01970) 617120

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

Hel Calennig



Mrs Roberts, 99 Maes-y-deri, ei hŵyr a'i gor-wyr yn croesawu aelodau Ysgol Sul Bethel a fu'n canu am galennig ar fore dydd Calan.

Bugail o fri



Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins, Tyn-y-graig, am gael ei ddewis i gynrychioli De Cymru, efo'i gi blwydd a hanner, Moss, yn y Treialon Cŵn Defaid i gŵn o dan dair oed a oedd heb ennill o'r blaen, ac yr unig un o Geredigion. Bu'r ffeinal yn Llanbadarn Fynydd ddydd Sadwrn 11eg o Ragfyr rhwng Gogledd a De Cymru, a De Cymru a enillodd."

Y daith i Fethlehem



Am y tro cyntaf erioed fe gynhaliwyd rhan o wasanaeth Nadolig y plant yng Nghapel Bethel Tal-y-bont eleni mewn

Cyngerdd y



Dymunaf ddiolch i bawb a fentrodd allan yn yr oerfel i ymuno â ni yng Nghyngerdd Nadolig y Cylch Meithrin i fwynhau hwyl y noson ac i gefnogi'r Cylch Meithrin, ac wrth gwrs y plant bach. Drwy gynnal y gweithgareddau codi arian yma rydym yn medru cynnig y dechreuad a'r gofal gorau i bob plentyn drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennym ddeunaw plentyn yn mynychu ar hyn o bryd – un ar ddeg yn sesiwn y bore a saith yn y prynhawn. Rhaid cofio nad yw

'Mae tymor y panto drosodd...O nac ydyw, dyw e ddim!'



Dai Dowsett yng nghwmni criw llwyfan Cwmni Mega.

Am bum wythnos cyn y Nadolig bu Dai Dowsett, Is-y-coed, Tal-y-bont, yn gyrru lori gyda Chwmni Mega pan oeddynt ar daith gyda phantomeim *Myrddin* a gynhyrchir gan Dafydd Hywel. Ond yn anffodus, daeth y tywydd i amharu ar y daith ddiwedd Rhagfyr. Mewn un perfformiad ar gyfer ysgolion yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth bu'n rhaid gorffen un perfformiad ar ganol yr act gyntaf oherwydd bod yr ysgolion yn awyddus i'r plant ddychwelyd adref oherwydd yr eira. Gohiriwyd dwy sioe arall yng Nghaerfyrddin oherwydd y tywydd, ac o ganlyniad bu'n rhaid aildrefnu ar gyfer yr ail wythnos ym mis Ionawr. Felly, i Dai roedd tymor y panto'n para i mewn i'r flwyddyn newydd. 'Rwyf wedi mwynhau fy hun yn fawr wrth deithio efo Cwmni Mega', meddai Dai. 'Roedd llawer o hwyl i'w gael ac roedd y cyfan yn ddiddorol iawn.'

ac i'r Ffald

llety'r anifail yn un o adeiladau'r Ffald. Ar ôl cychwyn y gwasanaeth yn y modd traddodiadol yn y capel fe orymdeithiodd tyrfawr o bobl a phlant ar hyd y ffordd rewllyd drwy'r eira o'r capel i'r Ffald i ail-greu mewn modd trawiadol olygfa geni'r Crist ym Methlehem. Yr oedd Gwydion Jones yn cyfarch pawb drwy ganu'r trwmpeid, ac yr oedd croeso mawr i'r llymaid o ddiodd sinsir gynnes a oedd yn cael ei gweini tra oedd yr addolwyr yn canu carol, yr union beth oedd ei angen i dwymo ar noson mor oer.

Fal Jenkins, arweinydd yr Ysgol Sul, a gafodd y fflach o weledigaeth i gynnal rhan o'r gwasanaeth mewn stabl go-iawn, ac yr oedd pawb a oedd yno yn cytuno ei fod yn syniad da. Gosododd y cyfan naws arbennig ar gyfer yr Ŵyl.

Meddai Fal Jenkins:

'Mewn deng mlynedd ar hugain o ymwneud â gwasanaeth yr Ysgol Sul, dyma un o'r gwasanaethau mwyaf cofiadwy i mi. Yr ydym yn ddiolchgar i Gwilym ac Ann Jenkins am ganiatáu inni ail-greu golygfa'r geni yn y Ffald. Ein gwasanaeth Nadolig ni oedd un o'r ychydig wasanaethau drwy Gymru a gynhaliwyd eleni oherwydd y tywydd.'

Cylch Meithrin

rhai o'r plant lleiaf a welwyd ar y llwyfan ond wedi troi'n ddwy oed ers mis Medi.

Dymunaf ddiolch i bawb a wnaeth ein cefnogi. Diolch i amryw o siopau tref Aberystwyth ac i gwmnïau lleol gan gynnwys @ebol, y Lolfa, Garej Davmor, Siop Spar a Chaffi Blue Creek am roi yn hael i'r raffl.

Diolch i'r rhai hynny a roddodd o'u hamser i wneud y cacennau blasus ar gyfer y stondin a'r lluniaeth ar ôl y gyngerdd ac i'r rhai ddaeth ag eitemau i'r stondin grefft a'r raffl.

Diolch i Janet Jones, Llwynglas am ei rhodd garedig o gacen Nadolig ar gyfer cystadleuaeth ar y noson. Mae plant y bore wedi bod yn ffodus iawn yn ddiweddar i gael sesiynau cerdd gan Mrs Fal Jenkins. Rydym yn ddiolchgar iddi am roi o'i hamser i ddod atom fel yr ydym yn ddiolchgar i staff y ddwy ysgol am eu cefnogaeth. Wrth gwrs, rhaid diolch i Anti Siân, Anti Anwen ac Anti Ellyw nid yn unig am baratoi'r plant ar gyfer y gyngerdd ond am eu hymroddiad drwy gydol y flwyddyn i wneud y Cylch yn lle i blant ddatblygu mewn awyrgylch cartrefol a hwyliog.

Non Jones

Cronfa Eleri

Blwyddyn 2010 – dros £16,000 i'w rannu

Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n gydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais a manylion ar gael o: www.cronfaeleri.com

Neu gan: Ysgrifennydd Cronfa Eleri

Garreg Wen

Tal-y-bont

Ceredigion SY24 5HJ

Tel: 01970 832551 e-bost: ymholiadau@cronfaeleri.com

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Chwefror 13eg 2011

Amcanion Cronfa Eleri

'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwyllianol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

CANOLFAN
M.O.T.

HUW
LEWIS



M.O.T.
CENTRE

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT

TEIARS

HUW
LEWIS



TYRES

Glanyrafon

Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor. Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan

ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM



BF Goodrich

KUMHO TYRES

Ffôn 01970 636774

Yswiriant, Pensiynau, Buddsoddiadau

Am wasanaeth personol a chyfeillgar, ffoniwch ein swyddfa lleol yn Aberystwyth ar:

01970 612331

www.nfumutual.co.uk/aberystwyth



NFU Mutual

INSURANCE PENSIONS INVESTMENTS

We do right by you

NFU Mutual is The National Farmers Union Mutual Insurance Society Limited (No. 115982). Registered in England. Registered Office: Tiddington Road, Stratford Upon Avon, Warwickshire CV37 7BJ. For security and training purposes, telephone calls may be recorded and monitored.

....rhagor o Bobl a Pethe

Sefydliad y Merched Eglwys-fach

Oherwydd y rhew a'r eira doedd hi ddim yn bosib cynnal cyfarfod mis Rhagfyr yn yr Ystafell Haearn, felly aeth yr aelodau i Lanfach, Taliesin i gynnal eu parti Nadolig. Roedd y neuadd yn edrych yn fendigedig a chafodd yr aelodau noson hyfryd. Diolch yn fawr i bawb a fu'n addurno ac a drefnodd y parti. Bydd y cyfarfod nesaf yn Eglwys-fach ar 10fed o Ionawr pryd y bydd Barbara Watkins yn siarad am 'Porth Derwen-las'.

Cinio Nadolig

Fe gafodd pawb wledd go-iawn yn y Wildfowler ar 3ydd o Ragfyr. Diolch i Chris a'r staff i gyd am baratoi bwyd mor fendigedig.

Eglwys St. Pedr, Bont-goch

Yn anffodus, oherwydd y tywydd garw, ni fu modd cynnal y gwasanaeth carolau blynyddol ar 17 Ragfyr, ac am y tro cyntaf mewn cof ni chynhaliwyd gwasanaeth y cymun bendigaid ar fore Nadolig.

Mae'r gwaith o drwsio rhannau o'r to a gosod cafnau newydd haeran cast ar yr Eglwys yn mynd yn ei flaen yn dda. Gwerthfawrogi yn fawr gymorth ariannol gan Gronfa Eleri Amgen tuag at y gwaith anghenrheidiol hwn. Os dymuna unrhyw unigolyn gyfrannu tuag at y gwaith hwn bydd swyddogion yr Eglwys yn falch iawn i dderbyn eu rhoddion.

Cymdeithas y Chwirydd, Rehoboth

Croesawodd Mrs Myfanwy Rowlands barti canu Elenid Thomas i ddiddanu'r chwirydd yn festri capel Rehoboth, Taliesin ar brynhawn Mawrth, 14 Rhagfyr. Aelodau'r parti oedd Glenys Jenkins, Paul Morgan, John Tudno Williams ac Alun John, gydag Elenid Thomas yn cyfeilio iddynt. Crewyd naws Nadoligaidd wrth i aelodau'r parti ganu nifer o garolau, yn unigol a gyda'i gilydd. Cafwyd te a mins peis i ddilyn yng ngofal Myfanwy a Mai, gyda chymorth Non ac Eirlys.

Blwyddyn Alun

Cafwyd cyfle i ddilyn Alun Elidyr wrth ei waith gartref yn y Cae Coch, Rhyd-y-main ger Dolgellau, lle y mae'n ffermio 700 erw ac yn cadw 500 o ddefaid a 18 o wartheg magu, mewn rhaglen awr o hyd yn y gyfres Ffermio ar S4C ddechrau'r mis. Clywsom fod Alun yn ystyried yr anifeiliaid yn rhan o'r teulu, a Catrin ac Elan yn enwau ar rai o'r gwartheg ganddo! Roedd hon yn rhaglen hynod ddiddorol ac addysgiadol am ffermwyr sy'n rhannu ei amser rhwng Cae Coch a Thal-y-bont.

Hoffwn ddymuno Blwyddyn Newydd Dda yn 2011
i holl drigolion Ward Ceulanamaesmawr

Cofiwch gysylltu os oes angen help arnoch

Ellen ap Gwynn

Cynghorydd Sir

Garreg Wen, Tal-y-bont, Ceredigion, SY24 5HJ

Ellen.apGwynn@ceredigion.gov.uk

01970 832551 / 07970 215072

Ôl-rifynnau Papur Pawb

Deuthum ar draws wyth ar hugain o hen rifynnau o *Bapur Pawb* yn ddiweddar ac wedi cael blas ar eu hailddarlenn. Rhyfedd gweld ymddiheuriad bod pris y papur yn 1975 yn codi o chwech i saith geiniog! Mae'r straeon yn dod ag atgofion am lawer sydd bellach wedi ein gadael, ac amryw o'r lluniau yn ein hatgoffa bod oedran yn gadael ei ôl. Penderfynais eu gadael yn siop torri gwallt Richard ger y bont fel y gall pawb eu gweld a'u prynu os mynnant, ac fe gaiff y pres fynd i goffrau'r papur. Dyma gopïau o'r rhifynnau sydd gennyf: misoedd Chwefror, Mawrth, Ebrill, Mai, Gorffennaf/Awst, Hydref, Tachwedd, Rhagfyr 1975; Ionawr, Gorffennaf/Awst, Tachwedd, Rhagfyr 1976; Chwefror, Mawrth, Ebrill, Mai, Mehefin, Gorffennaf/Awst 1977.

Erwyd Howells



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

**CODI Tŷ NEU
ESTYNIAD?**



Iwan Jones, Technegydd Pensaernïol
Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ
01970 832760

CYSTADLEUAETH

Er mwyn ennill copi o *Alun yr Arth yn y Gofod* gan Morgan Tomos, atebwch y cwestiwn canlynol:

Plant pa ysgol a wnaeth ysgrifennu Alun yr Arth yn y Gofod ar y cyd â Morgan Tomos?

Atebion i'r Golygydd Cyffredinol, Geraint Evans, Garnwen, Tal-y-bont, erbyn 4 Chwefror - post@garnwen.org.uk 01970 832473.

Yr ateb cywir cyntaf o'r het sy'n ennill.

Enillydd y gystadleuaeth ddiweddar

Y sawl a enillodd y gystadleuaeth i gael copi o lyfr Gwyn Jenkins, *Byw yn y Wlad/Life in the Countryside* oedd Kathleen Richards Y Bryn, am ateb y cwestiwn hwn – Beth ar lafar gwlad oedd enw helfa Gogerddan? Yr ateb oedd: **Cotiau Coch Gogerddan.**

GOLYGYDDOL

Mae'r awdurdod cynllunio lleol wrthi eto'n dynodi tir ar gyfer datblygiadau tai drwy'r sir, ac mae nifer y tai newydd a glustnodir ar gyfer yr ardal hon yn annisgwyl o uchel, sef cyfanswm o 131. Os cymerwn y bydd tri phreswlydd ar gyfartaledd ym mhob tŷ, dyna gynnydd yn y boblogaeth o 393 o bennau. Byddai hynny'n golygu tuag 20% o gynnydd ym mhoblogaeth ward Ceulanamaesmawr. Dylid ystyried yn hynod ofalus beth fydd effaith y fath gynnydd dramatig ar batrwm ieithyddol presennol y gymdeithas yn ogystal ag ar y gwasanaethau yn lleol.

Yn ystod y pedwar degawd diwethaf, tyfiant organig graddol a gafwyd yn nifer y tai newydd a adeiladwyd, a hynny i raddau helaeth i gwrdd â'r galw a'r angen lleol. Mae codi stad Dôl Pistyll, lle mae amryw o Gymry ifanc yn byw, yn sicrh wedi dangos bod angen lleol am dai fforddiadwy, sydd i raddau yn rhan o'r twf organig lle mae cymuned yn tyfu yn ei phwysau ei hun yn hytrach nag o ganlyniad i bwysau o'r tu allan iddi. Ond cyn y meddir hawlio bod gwir angen codi cymaint o dai mewn cyfnod mor fyr, dylai'r Cyngor

yn y lle cyntaf fesur beth yw maint y galw a'r angen lleol am dai newydd. Dylai hefyd allu diffinio beth yw 'lleol'. A barnu wrth gyfran dda o'r bobl sy'n byw yn Nôl Pistyll, er enghraifft, mae 'lleol' yn golygu pobl sydd wedi eu geni a'u magu naill ai yn Nhal-y-bont ei hun neu o fewn ychydig filltiroedd i'r pentref.

Mae ystyriaethau eraill yn codi yn sgil y Cynllun Datblygu:

- Pam nad oes sôn am greu swyddi yn yr ardal i gyd-fynd â'r twf damcaniaethol yn y boblogaeth mewn sir lle mae disgwyl nifer o ddiswyddiadau o ganlyniad i'r wasgfa ariannol ar gyllid y sector cyhoeddus?
- Dim ond 20% o'r tai o fewn y cynllun ar gyfer Tal-y-bont sydd wedi eu clustnodi fel rhai fforddiadwy. Pa mor ddigonol yw hynny mewn sir lle roedd pris tŷ ar gyfartaledd ym mis Tachwedd 2010 yn £174, 432, yn ôl y Gofrestrfa Dir?
- A oes arolwg yn mynd i gael ei gynnal i weld pa fath o dai y gall fod galw amdanynt yn lleol, ai tai unllawr (byngalos) neu dai deulawr, ai tai dwy neu dair neu bedair llofft?
- Mae sôn am gynnal archwiliad manwl o effaith amgylcheddol y cynlluniau arfaethedig mewn perthynas â choed a gwrychoedd ac afonydd a nentydd. Pam nad oes sôn am gynnal archwiliad manwl o effaith y cynlluniau ar iaith a diwylliant?

Diau y bydd cwestiynau eraill yn codi yn ystod yr wythnosau nesaf nad oes atebion iddynt yn y pentwr o waith papur sydd ynghlwm wrth Gynllun Datblygu Lleol y Cyngor Sir.



Cynllun Datblygu Lleol (CDLI)


Fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Ceredigion 2007–2022 (CDLI) mae Cyngor Sir Ceredigion yn bwriadu ymgynghori ynghylch Dogfennau Adneuo'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd y cyfnod ymgynghori'n ymestyn am 8 wythnos o 22 Rhagfyr hyd hanner dydd 17 Chwefror 2011. Unwaith y caiff y Cynllun Datblygu Lleol ei fabwysiadu, fe'i defnyddir fel sail ar gyfer datblygu a defnyddio tir ar draws Ceredigion dros gyfnod y cynllun.

Rhagwelir y bydd angen codi oddeutu 6,000 o dai newydd erbyn 2022 i gwrdd â'r galw drwy'r sir, a dywed y Cyngor mai un o brif strategaethau'r CDLI fydd lleoli'r tai hyn yn y fath fodd fel ei fod yn 'atgyfnerthu rhwydwaith Ceredigion o gymunedau trefol a gwledig a'r iaith Gymraeg'. Mae'r cynllun wedi rhannu'r sir yn 22 o grwpiau o aneddiadau (7 Canolfan Gwasanaethau Trefol + 15 Canolfan Gwasanaethau Gwledig). Mae'r holl aneddiadau a lleoliadau y tu allan i'r Canolfannau Trefol a Gwledig wedi eu cysylltu ag un o'r canolfannau hynny, gan ffurfio Grŵp Aneddiadau. Awgryma'r Cynllun y dylid codi 51% o'r tai newydd yn y 7 Canolfan Trefol, 24% yn y 15 Canolfan Gwledig a 25% yn yr Aneddiadau Cyswllt. Mae pentref Tal-y-bont wedi ei glustnodi yn y cynllun fel un o'r Canolfannau Gwasanaethau Gwledig. Mae gweddill yr aneddiadau a lleoliadau eraill o fewn ardal *Papur Pawb* wedi eu cynnwys yng Ngrŵp Aneddiadau Tal-y-bont. Mae'r Cynllun yn amcangyfrif y bydd galw dros gyfnod y cynllun am 84 o dai newydd yn Nhal-y-bont. Gan fod 2 uned eisoes wedi eu codi yn y pentref rhwng Ebrill 2007 a Mawrth 2010, a 10 uned arall wedi derbyn caniatâd cynllunio, gweddill y gofyniad hyd 2022 fydd 72 uned. Mae'r CDLI wedi clustnodi 4 safle ar gyfer codi tai'r hyn sef: (i) *Y Dderwen* (tua 10 uned); (ii) *Maes-y-deri* (tua 20 uned); (iii) *Glan Ceulan* (tua 20 uned); (iv) *Tir tu ôl i Eglwys Dewi Sant* (35 uned).

Clustnoda'r Cynllun godi 47 uned newydd ymhlith Aneddiadau Cysylltiol Grŵp Tal-y-bont (Glandyfi, Ffwrnais, Eglwys-fach, Taliesin, Tre'r-ddôl, Llangynfelyn a Bont-goch) ond gan fod 38 eisoes naill ai wedi eu codi neu wedi derbyn caniatâd cynllunio, ni fydd angen ond 9 uned ychwanegol hyd at 2022.

Cyflwyno ymateb

Mae'r Cynllun Adneuo'n cynnwys nifer o ddogfennau ymgynghorol. Gellir gweld copiau yn Swyddfa'r Cyngor Sir, Penmorfa, Aberaeron, Llyfrgelloedd y Sir a'r Llyfrgelloedd Symudol, neu ar wefan y Cyngor <http://www.ceredigion.gov.uk/index.cfm?articleid=4761>



Map yn dangos y cynlluniau ar gyfer ardal Tal-y-bont. ©Hawlfraint y Goron



MID WALES STORAGE

STORFA CANOLBARTH CYMRU

STORFA DODREFN



STORFA FUSNES ARCHIFAU



STORFA I FYFYRWYR



PACEDU



**DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR
CCTV
WEDI GYNHESU
CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS**

www.midwalesstorage.co.uk

Heol Y Doll
Machynlleth
SY20 8BQ

Tel 01654 703592

S. F. BYRNE

Adeiladwr a Saer Maen



Ffôn: 01970 832068
M: 077626 20309
Gwneir pob math o waith

ANGEN

Anifeiliaid Tew
(i'w lladd mewn
lladd-dy lleol)

Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Capel Bangor 880627

Ysgol

Sinema

Aeth holl ddisgyblion yr ysgol i Sinema'r Commodore yn Aberystwyth i weld y ffilm 'Shrek – Forever After'. Mwynhaodd pawb y ffilm yn fawr iawn gan gynnwys y staff. Diolchwn eto i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am dalu am y tocynnau ac am y bws.

Cinio Nadolig

Paratôdd Mrs Lisa Byrne a Mrs Phyllis Ellis wledd i'r plant a'r athrawon cyn diwedd y tymor. Roedd y cinio Nadolig yn flasus iawn gyda phawb yn mwynhau'r cyfan. Uchafbwynt y cinio oedd y Pwdin Nadolig a'r saws hyfryd! Diolchwn i Mrs Linda Hicks ein cyn-gogyddes am gyfrannu'r craceri ar gyfer y plant.

Eira

Bu'n rhaid cau'r ysgol am un diwrnod yn unig yn ystod y tywydd garw cyn diwedd y tymor. Bu'r plant yn mwynhau chwarae yn yr eira yn ystod amser chwarae a bu'r plant lleiaf wrth eu bodd yn dysgu yn yr eira. Roedd hi'n galonogol iawn gweld cynifer o blant yn llwyddo i gyrraedd yr ysgol er gwaethaf yr eira. Cerddodd rhai plant dros filltir i gyrraedd y brif ffordd er mwyn medru dod i'r ysgol.

Sioe 'Wizard of Oz'

Llongyfarchiadau i Maeve Courtier-Lilley am fod yn rhan o gynhyrchiad Theatr Gymunedol Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth o'r 'Wizard of Oz'. Roedd Maeve yn chwarae rhan un o'r *Munchkins* a phlentyn o'r Ddinas Oz. Da iawn ti am ganu, dawnsio ac actio mor dda!

Ysgol

Pantomeim yr ysgol

Hoffwn ddiolch i holl staff yr ysgol am eu gwaith caled yn sgriptio, cyfansoddi a chynorthwyo gyda'r ymarferion eleni. Oherwydd llawer o salwch gan y plant bu'n rhaid addasu tan y funud olaf a diolch yn fawr i Harri am gytuno i gymryd darn ar fyr rybudd.

Hoffwn ddiolch hefyd i bawb fu'n ein cynorthwyo i gynnal noson lwyddiannus. Diolch i holl aelodau'r Gymdeithas Rieni a fu'n paratoi ar gyfer y noson, i Emma O'Brien am ddysgu'r dawnsio, i Dafydd Jones Bwlchyddwyallt am helpu gyda'r sain a'r golau ac i Ieuan Morgan a Myfanwy James am bob cymorth gyda llogi'r Neuadd.

Ond i'r plant y mae'r diolch mwyaf am ddysgu'r geiriau ac am berfformio mor arbennig ar y noson. Gobeithio fod pawb wedi mwynhau.

Eira

Cafwyd diwedd tymor cyffrous a gwahanol yn yr ysgol cyn y Nadolig oherwydd yr eira. Gwnaeth yr ysgol bob ymdrech i fod ar agor yn ystod y tywydd drwg ac roedd y plant wedi mwynhau'r cyfle i chwarae gyda'i gilydd yn yr eira.

Sinema

Eleni aeth plant yr ysgol i weld ffilm ddiweddaraf *Shrek* yn Sinema'r Commodore. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni am dalu am y digwyddiad.

Cinio Nadolig

Cafodd y plant a'r staff wledd unwaith eto eleni, diolch i Mrs Jones a Mrs Bent yn y gegin. Hoffai'r ysgol ddymuno'r gorau i Julie yn ei swydd newydd yn Bridgenorth. Ar ddiwedd y tymor ffarweliwyd hefyd â Delyth Huws sydd wedi cael swydd newydd fel Llyfrgellydd Plant a Phobl Ifanc y sir. Diolch yn fawr iawn i'r ddwy ohonynt am eu cyfraniad gwerthfawr i'r ysgol.

Prosiect Tŷ Gwydr Eco

"Rydym ni, blant CA2 Ysgol Tal-y-bont, am adeiladu tŷ gwydr eco-gyfeillgar. I wneud y tŷ gwydr hoffem ddefnyddio poteli plastig, ac mi fydden ni'n ddiolchgar iawn pe byddai trigolion Tal-y-bont yn fodlon dod â photeli 2 litr gwag i'r ysgol, dim ots pa liw, er mwyn cwblhau'r tŷ gwydr mewn da bryd i blannu!"

Hefin Jones

Llangynfelyn Sioe Nadolig



Cynhaliwyd Sioe Nadolig yr ysgol yn Neuadd Llanfach ar nos Fercher Rhagfyr 8fed. Enw'r sioe oedd 'Y Goeden Fach Hardd'. Dilynwyd hanes coeden fach Nadolig wrth iddi geisio dod o hyd i rubanau, tinsel a seren i'w harddu ar gyfer y Nadolig. Ond ar ddiwedd ei thaith mae'n cyrraedd y stabl ym Methlehem ac yn gweld y baban Iesu. Mae hi'n dod i ddeall mai'r baban Iesu ydy'r peth harddaf yn y byd. Dysgodd y plant eu geiriau'n arbennig o dda a mwynhaodd pawb eu hactio a'u canu. Ar ôl y sioe aeth y gynulleidfa yn ôl i'r ysgol i gael gwledd gerddorol gyda phlant hŷn yr ysgol yn eu diddanu gyda'u hofferynnau cerddorol. Diolchwn i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am baratoi'r te a'r mins peis yn yr ysgol.



Mairead Jones, Nina Davies a Nansi Dingle



Max Byrne a Catrin Jones


Cerddorfa Cenedlaethol Plant Prydain Fawr



Llongyfarchiadau mawr iawn i Nansi Dingle sydd wedi cael ei dewis i fod yn aelod o Gerddorfa Cenedlaethol Plant Prydain Fawr. Bu'n rhaid i Nansi chwarae ei fiola mewn clyweliad ym mis Hydref. Bydd hi'n ymarfer gyda'i hathrawes fiola Miss Isabelle McGuinness cyn ymuno â gweddill y gerddorfa mewn wythnos breswyl yn ystod gwyliau'r haf. Byddant yn perfformio mewn cyngherddau ar ddiwedd yr haf. Da iawn ti Nansi ar y llwyddiant yma a thithau ond yn 11 oed.

Tal-y-bont

Panto Nadolig



Mae'n arferiad gan Ysgol Tal-y-bont i gynnal cyngerdd a phantomeim bob yn ail flwyddyn, y flwyddyn yma roedd hi yn flwyddyn bantomeim. Mae'r pantomeim yn ffefryn gan y plant a rhai o'r oedolion hefyd. Y flwyddyn yma cawsom bantomeim 'Owain, Siôn a Draig Hud Hyddgen', pan oedd Siôn Corn mewn tipyn o benbleth ar noswyl y Nadolig. Sut oedd e'n mynd i ddosbarthu'r holl anrhegion i blant y byd gyda'i sled ddim yn gweithio? Diolch byth fe wnaeth Siôn Corn gwrdd ag Owain Glyndŵr, a oedd yn adnabod rhywun allai ei helpu, sef Draig Hud Hyddgen. Braf oedd gweld y neuadd mor llawn ar gyfer yr achlysur, ac mae'n ddiogel dweud fod pawb wedi mwynhau'r pantomeim yn fawr iawn!

Steffan Nutting

TYMOR HWYLIOG “OS MÊTS”



Os Mêts yn Afallen deg

Balch ydym fod Efan Williams wedi ymdaflu i'w swydd fel Swyddog Gwaith Plant ac Ieuenctid yng Ngogledd Ceredigion ac eisoes wedi cynnal sesiwn hwyliog gydag aelodau “Os Mêts” yn Neuadd Rhydypennau nos Fercher Hydref 6^{ed} 2010.

Yna ar Dachwedd 30^{ain} bu criw dan arweiniad Falyri Jenkins, Ruth Jên a Helen Jones yn ymarfer ar gyfer canu carolau ac yn darparu cardiau Nadolig ar gyfer eu dosbarthu ymhlith trigolion Cartref Tregerddan ac Afallen Deg pan oedd aelodau'n ymuno dan arweiniad Falyri Jenkins ar Ragfyr 15^{eg}. Cafwyd cefnogaeth dda oddi wrth garedigion “Os Mêts” a chafwyd eitemau gan Driawd Pres – Gwern Penri ac Iestyn a Ffion Evans – a chyflwynwyd unawdau gan Efan Williams

Oherwydd yr eira rhaid fu gohirio'r canu carolau o flaen Siop y Pethe brynhawn dydd Gwener Rhagfyr 17^{eg} a drefnwyd ar gyfer ieuenctid y cylch cyfan. Y bwriad oedd cyfrannu nid yn unig at naws Nadoligaidd yn Aberystwyth ond hefyd helpu i gasglu arian at fudiadau dyngarol. Daw cyfle arall bid siŵr.

Edrychwn ymlaen at weithgareddau amrywiol yn ystod tymor y Gwanwyn dan arweiniad Efan.

NODER: Cynhelir cyfarfod o Bwyllgor Gweithredol “Os Mêts” Nos Fercher Mawrth 23^{ain} 2011.

GAREJ DAVMOR

M.O.T., Gwasanaeth,
Batris a Theiars

Gellir llogi car, fan neu fws mini
i'w gyrru eich hun

www.davmorgarage.co.uk

Ffôn: 01970 832278

Y RHAGFYR OERAF



Yn ôl y gwybodusion, y mis diwethaf oedd y mis Rhagfyr oeraf ers can mlynedd. Bu'r eira ar lawr am dros wythnos wrth i'r tymheredd blymio cyn ised â 18 gradd o dan y rhewbwynt mewn ambell ran o Gymru. Er bod priffordd yr A487 yn cael ei graeanu'n ddyddiol, parhau yn eithriadol o beryglus a wnâi holl fân ffyrdd yr ardal. Felly hefyd y palmentydd a'r llwybrau cerdded. Diolch i'r drefn, ni chafwyd damweiniau cas yn yr ardal hon, a braf oedd clywed am sawl achos o garedigrwydd pobl yn gofalu ar ôl cymdogion oedrannus.

Amharwyd ar y gwasanaeth casglu a danfon post i gartrefi'r ardal am rai dyddiau cyn y Nadolig, ond fe welwyd pa mor bwysig yw siop y pentref ar adeg o dywydd mawr gan fod mwy o bobl nag arfer wedi galw i mewn i brynu bwyd. Bu Heulwen ac Ifan a'r staff yn brysur yn gofalu fod cyflewnadau digonol o laeth a bara a phapur newydd ar gael i drigolion yr ardal. Yn wahanol i ambell ardal yng Nghymru lle gwelwyd pentyrau o sbwriel heb ei gasglu am ddyddiau lawer, fe ailddechreuodd y gwasanaeth casglu sbwriel yn fuan wedi'r Nadolig yn yr ardal hon, a rhaid diolch i weithwyr y Cyngor am eu gwaith.

SUT I

Rwy'n teimlo braidd yn euog wrth fwynhau tywydd clir, oer, crisp y gaeaf yma yng Nghymru; mae'n f'atgoffa o aeafau fy mhlentyndod yn y Ffindir. Ond i'r rhan fwyaf ohonoch mae tywydd oer eich gaeaf chi yn achosi problemau ichi ac nid yw sôn am olygfeydd bendigedig eira ar fryn a dâl o ddim help i chi ei fwynhau, felly beth alla i ei wneud?

Gan fod cael eira ar lawr am hyd at chwe mis o'r flwyddyn yn gyffredin yn y Ffindir mae gan bob cymuned ei swch eira a'i lorïau graeanu. Mae trafndiaeth gyhoeddus wedi ei haddasu i wrthsefyll tymheredd mor isel â -35C gradd.

Mae deddf gwlad yn mynnu bod pob car yn newid i deiars gyda stydiau ym mis Hydref ac yn newid yn ôl i rai normal yn y gwanwyn. Mae traffig ar y rheilffordd ac ar y ffordd yn rhedeg yn normal lawr at -20C gradd er bod cwmp trwm o eira neu eira'n toddi yn gallu achosi peth trafferth. Er mwyn i gar beidio rhewi a dechrau'n iawn yn y bore mae ganddyn nhw beiriant i'w gysylltu gyda'r trydan dros nos.

Wrth gwrs mae tai yn y Ffindir wedi eu hinswleiddio'n wych gyda ffenestri dwbl neu driphlyg. I fynd allan rhaid gwisgo dillad addas a chynnes, esgidiau gaeaf, het a phob tro rywbeth dros eich clustiau. Mae sgïo traws-gwlad a cherdded Nordig yn boblogaidd wrth gwrs gyda ffon ymhob

— ERS CAN MLYNEDD



Ar ôl y rhew rhaid cyfri'r gost



Twll yn y ffordd ger y Cae Bach yn Nhal-y-bont.



Sylwn bod nifer o dyllau wedi ymddangos yn rhai o ffyrdd yr ardal, a bydd yn rhaid i'r Cyngor Sir maes o law wneud asesiad o'u cyflwr. Ac arian mor brin, bydd yn rhaid i'r Cyngor flaenoriaethu wrth wario ar eu hatgyweirio. Y gaeaf hwn y mae cyfanswm o 562km o ffyrdd Ceredigion wedi eu blaenoriaethu ar gyfer eu graeanu, sef 25% o'r cyfanswm o ffyrdd drwy'r sir, felly y tebyg yw mai'r ffyrdd hyn a gaiff y flaenoriaeth pan ddaw'n fater o lenwi tyllau. Derbyniodd y cynghorau sir drwy Gymru £7 miliwn yn ychwanegol gan y Cynulliad er mwyn llenwi tyllau yn y ffyrdd, ond y tebyg yw y bydd y cynghorau sir yn wynebu mwy o gost am brynu cyflenwadau ychwanegol o halen i gadw'r priffyrdd yn agored heb ddechrau cyfri'r gost am lewni'r tyllau.

DDOD I BEN YN YR EIRA!



Tŷ haf Mirja a Tudor ger eu llyn allan yn y wlad yn y Ffindir.

llaw i'ch cadw rhag syrthio. Nid yw rasys sgïo traws-gwlad yn cael eu cynnal os yw'r tymheredd yn is na -15C gradd; gall rasio ar dymheredd is na hynny rewi eich ysgyfaint!

Fe fyddwch yn synnu darllen bod babanod a phlant ifanc

sydd eisiau cwsg yng nghanol pnawn yn cael eu lapio'n gynnes, gyda phrin dim o'u hwynebau'n dangos, a'u rhoi allan yn yr awyr agored i gysgu hyd at 15 gradd dan y rhewbwynt; fe gysgan nhw'n dda a thyfu'n iach.

Gall plant chwarae allan yn yr awyr agored ar gaeau wedi eu gwresogi pan fo'r tymheredd ddim is na deg o dan rewi. Y llynedd gwyliais fy nai 9 oed a'm nith 14 oed yn chwarae pêl-droed yn y gaeaf a'u hanadl yn rhewi ar eu hwynebau. Nid yw eira yn eu hatal rhag mwynhau eu hunain!

Mae gan bob bloc o fflatiau ei sawna a phob fflat newydd ei sawna ei hunan; mae'n chwarae rhan bwysig ym mywyd pobl hyd yn oed yn y gaeaf. Yn y tai allan yn y wlad, wedi chwysu dan do yn y sawna, rhaid oeri'n gyflym, felly rhaid rowlio yn yr eira neu dorri twll yn y llyn cyfagos a neidio i mewn!

Os oes rhaid i chi fynd allan mewn tywydd rhewllyd cofiwch fod gwadnau'ch sgidiau yn gynnes pan ewch allan o'r tw i ddechrau. Bydd y gwadnau cynnes yn toddi'r eira ac yn y canllath cyntaf dyna pryd rydych chi'n debygol o lithro a brifo. Pan fo gwadnau'ch sgidiau chi'n wirioneddol oer maen nhw gafael yn well a gallwch gerdded yn normal ac yn ddiogel.

I fod yn hollol ddiogel arhoswch yn glyd yn y tŷ!

Mirja Wynn-Williams, Dôl-y-bont

Chwaraeon

YR HEN A'R IFANC YN GYFARTAL



Yr hen a'r ifanc gyda'i gilydd ar gyfer y gêm fawr.

Ar fore Llun braf 3 Ionawr, daeth pêl-droedwyr yr ardal ynghyd ar Gae'r Odyn Galch i chwarae gêm gyfeillgar i ddathlu dechrau'r flwyddyn newydd. Y ddau dîm oedd Clwb Ieuencid Tal-y-bont a Chlwb Tal-y-bont – yr ifanc yn erbyn yr hen felly. Ar un adeg roedd y bechgyn ifanc ar y blaen 3-1 ond erbyn y diwedd y sgôr oedd 4-4 – canlyniad teg a oedd yn adlewyrchu ymdrechion y ddau dîm.

Ar 8 Ionawr cafodd Tal-y-bont fuddugoliaeth dda mewn gêm gynghrair ar Gae'r Odyn Galch yn erbyn Penrhyn-coch. Sgoriodd Barry Southgate ddwy gôl a David Griffiths un wrth i Dal-y-bont ennill 3-1.



Harri James (ail o'r chwith) yn taro ergyd nerthol i'r gôl.

Argraffu 5-lliw
a gwasanaeth di-ail:
holwch Paul am bris
ar paul@ylolfa.com

ylolfa
TALYBONT CEREDIGION SY24 5HE
01970 832 304
ylolfa@ylolfa.com
www.ylolfa.com

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

**GOLCHDY
LLANBADARN**

CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459 Mob: 07967235687
Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu
gwasanaeth fframio dychmygus
o'r safon uchaf.
Cewch ddewis o amrediad eang o
siapiau gosod a fframiau.
Bydd y fframdy'n gallu darparu ar
gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth,
Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Mae Papur Pawb yn
awyddus i gynnwys
newyddion am hynt a helynt
unigolion neu dimau o'r
ardal sy'n cystadlu yn y byd
chwaraeon. Anfonwch yr
hanesion at Gwyn Jenkins
drwy e-bost (maesgwyn@fsmail.net) neu ffoniwch ef
ar 832560.